

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned
Penisarwaun Nos Fawrth 3ydd Fai 2016

Teyrnged:

Gyda thristwch, a hynny am y trydydd mis yn olynol eleni, y bu i ni golli aelod gweithgar iawn o'r cyngor, Geraint Elis. Bu i Richard Ll. Jones grynhoi geiriau o'r lluo deyrngedau sydd wedi eu dweud yn barod. Bydd colled enfawr i ni fel cyngor o gwmi, gwybodaeth, a doethineb Geraint.

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Elfed Williams, Richard Ll. Jones, Gwilym Williams, Carolyn Roberts, R. Hefin Williams, Geraint Hughes, Rhian Evans, Idris Thomas, Jane Pierce, Rachel Williams. Croesawyd Euryn Roberts, Bron Cynfi. I'w gyfarfod cyntaf fel Cynghorydd Cymunedol yn cynrychioli ardal Dinorwig ar y cyngor. Brodor a fagwyd yn Rhes Fictoria Deiniolen, cyn priodi a ymgartrefu yn Bron Cynfi. Un sydd felly yn adnabod yr ardal a'i phobl yn dda.
Gwedd: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones.

1. Dewis Swyddogion am y flwyddyn

Penodwyd yr is gadeirydd, Elfed Williams yn gadeirydd am y flwyddyn 2016/17, gyda'r cynghorydd Idris Thomas yn is gadeirydd.

Gyda y Cynghorydd Elfed Williams yn cadeirio:

2. Ymddiheuriadau. Sion Jones, Aled Green

3. Datgan buddiant. Dim

4. Rheoliadau Ariannol a Llofnodwyr.

Trafodwyd Y Rheolau Ariannol.

Penderfynwyd cadw yr un llofnodwyr ar y cyfrif banc.

5. Trafod a Chymeradwyo Cyfrifon 2015/16

Bu trafodaeth am y daflen, ac nad oedd llawer o newid yn y balansau ar ddiwedd y flwyddyn eleni i gymharu a llynedd. Nid oedd gan neb gwestiwn ar run taliad, ac roedd popeth i weld yn ei le.

Roedd y cyngor yn falch eu bod wedi gallu cyfrannu mwy o bron i fil o bunodded tuag at fudiadau lleol yr ardal na llynedd.

Serch hynny, cyfeiriwyd bod yna fwy o bwysau'n mynd i'w roi ar Gynghorau Cymuned dros 3 blynedd nesaf yn sgil toriadau a gwaith effeithlonrwydd y Cyngor Sir. O bosib bydd mwy o ofynion yn dod ar y Cynghorau Cymuned, a gwnaethpwyd sylw ein bod dros y 3 blynedd nesaf yn edrych i godi y praesept yn flynyddol.

6. Mantolen Ariannol

Cyflwynodd y Clerc Fantolen Ariannol o gyfrifon y cyngor am y flwyddyn 2015/16 yn barod am yr archwiliad.

Derbyniwyd y Fantolen Ariannol yn gywir.

7. Cofnodion Cyfarfod 5ed Ebrill 2016

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

8. Materion o'r cofnodion

Parcio Anabl Bethel – yn dilyn cais i newid bae anabl ger y post am bae "arhosiad byr" derbyniwyd llythyr yn dweud fod swyddogion o'r cyngor yn monitro y sefyllfa.

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr o Cyngor Gwynedd ynglyn a'r ansicrwydd yn y gwasanaeth ac mae Unllais Cymru wedi cymeryd y mater i fyny erbyn hyn.. Mae yna gyfarfod wedi ei drefnu lle gobeithir wedyn y bydd yna wybodaeth fwy pendant ar y mater.
CCG – Derbyniwyd llythyr ynglyn a Bwrdd Rheoli. Os oes tenant yn yr ardal a diddordeb, o gynrychioli tenantiaid ar y Bwrdd, yna cysylltwch a CCG.

Lon Racca i Cwt Band – Yn dilyn llythyr a yrrwyd i'r prif weithredwr a Hywel Williams AS, derbyniwyd llythyr o gydnabyddiaeth gan y prif weithredwr, ac y byddwn yn clywed ymhellach ar y sefyllfa maes o law.

Biniau Baw Cŵn - Derbyniwyd llythyr yn datgan fod y biniau yn gyffredinol yn derbyn gwasanaeth gwagio wythnosol, ond wrth gwrs yn ddibynnol ar ddwyseidd poblogaeth, bydd rhai yn derbyn mwy aml. Mae yn DROSEDD i hongian y bagiau ar weiren bigog, ac mae modd gosod dirwy ar y sawl sydd yn cario allan y drosedd.

Os ydych yn berchenog ar gi **unai rhowch y bagiau mewn bin pwrpasol i faw cŵn, neu ewch a fo adref.**

9. Gohebiaeth a materion eraill

Gwelliannau'r A4244 Beran – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod y cyngor wedi bod yn llwyddianus i dderbyn grant i wella y lon yma hyd at lon yr A4086.

Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd – Derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu fod yn ymddangos fod galw am dai cymdeithasol yn yr ardal yn isel. Teimlai'r cyngor, nad oedd hyn yn syndod, a bod yn rhaid gwella y gwasanaeth cyn bydd galw am dai.

10. Cynllunio

Ty Rhos, Bethel – Gwaith tocio Coed o fewn ardal gorchymyn gwarchod coed

Minawel, Bethel – Codi estyniad llawr cyntaf to fflat ar ben yr estyniad

Ger y Coed, Dinorwig – Cais ol weithiol ar gyfer ymestyn cwrtil domestig a gosod carfan ar gyfer defnydd atodol i'r annedd ynghyd a gwared o ail garafan oddi ar y tir

Brynteg, Fachwen - Codi estyniad ochor rhannol deulawr ac estyniad dormer cefn.

Bryn Goleu, Lon Garet, Dinorwig – Codi garej a storfa newydd yn lle'r hen adeiladau allanol presennol yngyd a ehangu cwrtil preswyl yr eiddo.

Ael y Garth, Nant y Garth – Newid amod rhif 2 ar ganiatad cais gwreiddiol er mwyn diwygio'r dyluniad a ganiatawyd.

Tir Gyferbyn a Hen Bost Clwt y Bont – Codi 3 ty anedd deulawr ar wahan a datblygiadau cysylltiedig.

Bryn Pistyll, Bethel – Dymchwel ystafell hau bresennol a chodi estyniad cefn to brig dros estyniad ochr, dymchwel porth a newidiadau eraill.

Tyn Llidiart, Rhiwlas – Creu balconi ac hen estyniad to fflat.

Tir Ger Capel Maes y Dref, Clwt y Bont – Cais llawn i godi 12 ty ynghyd a creu mynedfa a lon stad

8. O gwmpas y Bwrdd

Rhiwlas – Hoffwn fel cyngor ddymuno yn dda i'r Cynghorydd Rhian Evans a fu'n priodi ei chymar Jim Hill ym mis Mehefin.

Penisarwaun – Angen clirio ysbwriel o Ynys Iago i Pen Dinas neu lon a elwir Ffordd Lwybr –

Brynrefail – Bu i Carolyn Roberts ein hysbysu ei bod yn ymddiswyddo o fod yn gynghorydd yn ardal Brynrefail. Diolch i Carolyn am ei gwaith trwyadl dros nifer o flynyddoedd yn ardal Brynrefail.

Gallt y Foel – Mae yn ymddangos fod yna cryn dipyn o ysbwriel i fyny lon Bwlchgwynt angen ei glirio.

Bethel – Mae yna ddifrod wedi ei wneud i'r wal ar gongol y lon rhwng Ty Mawr Tearooms a Fferm Ty Mawr yn dilyn damwain.